

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau rhent tai. Mae hyn yn cynnwys rheoli prosesau cyfrifo rhent a gweinyddu gweithdrefnau adennill dyledion i gynnal tenantiaethau cwsmeriaid.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. darparu gwasanaethau rhent tai i gwsmeriaid
2. cadarnhau rhent a thaliadau gwasanaeth gyda chwsmeriaid
3. hysbysu cwsmeriaid o'u cyfrifoldeb cyfreithiol i dalu rhent a thaliadau gwasanaeth fel y nodir yn eu cytundebau tenantiaeth
4. cynnal gwiriadau incwm neu fudd-daliadau cwsmeriaid a'u cynghori ar y canlyniadau mewn perthynas â thalu rhent
5. cytuno a sefydlu dull(iau) talu sy'n bodloni gofynion eich sefydliad a gofynion eich cwsmeriaid
6. cadarnhau bod cwsmeriaid yn deall y ffordd y bydd cyfrifon eu rhent yn gweithredu
7. monitro cyfrifon rhent cwsmeriaid yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol perthnasol
8. cadw cofnodion a chynhyrchu gwybodaeth gyfrifeg yn ôl yr angen
9. nodi cyfrifon sydd mewn ôl-ddyledion yn unol â'ch gofynion sefydliadol
10. gweinyddu gweithdrefnau adennill dyledion yn unol â gofynion sefydliadol a chyfreithiol perthnasol
11. cofnodi'r holl gamau a gymerwyd i adennill rhent

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i ddarparu gwasanaethau rhent tai i gwsmeriaid
2. gofynion cyfreithiol perthnasol eich sefydliad a'ch cwsmeriaid mewn perthynas â gosod, talu a chasglu rhenti a thaliadau am wasanaethau
3. eich gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sefydlu cyfrifon rhent
4. y system budd-daliadau tai sy'n berthnasol i'ch cwsmeriaid
5. sut i gyfathrebu â'ch cwsmeriaid
6. yr ystod o wasanaethau cynghori ar ddyledion sydd ar gael i gwsmeriaid
7. y mathau o ddull(iau) talu sydd ar gael i gwsmeriaid
8. eich gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer monitro cyfrifon rhent
9. goblygiadau gwahanol weithgareddau neu gamau adfer rhent i gwsmeriaid
10. eich gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer adfer dyled
11. y prosesau cyfreithiol perthnasol sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion rhent
12. sut i ddefnyddio systemau TG ar gyfer cyfrifo rhent a'i fonitro
13. terfynau eich cyfrifoldebau eich hun a goblygiadau gweithredu y tu allan i'r terfynau hyn

Datblygwyd gan	Skills CFA
Dyddiad cymeradwyo	29 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	06 Ion 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH313
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu